Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Adroddiad Etifeddiaeth / Legacy Report
CWLC LEG12
Ymateb gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr / Response from National Union of Journalists

NUJ NATIONAL UNION OF JOURNALISTS

**Ymholiad Etifeddiaeth gan Bwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd**

Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) yw'r llais sy'n cynrychioli newyddiaduraeth a newyddiadurwyr yn y DU ac Iwerddon. Cafodd ei sefydlu yn 1907 ac mae iddo dros 30,000 o aelodau ac 8,000 o aelodau llawrydd sy'n gweithio ym myd darlledu, papurau newydd, asiantaethau newyddion, cylchgronau, cyhoeddi llyfrau, cysylltiadau cyhoeddus, ffotograffiaeth, fideograffiaeth a'r cyfryngau digidol.

Mae'r NUJ yn croesawu'r cyfle i ddarparu cyflwyniad Etifeddiaeth i'r ymholiad gan y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu.

Ym mis Tachwedd 2015, pan gyhoeddodd yr NUJ ei adroddiad, *Maniffesto ar Gyfryngau Cymru*, nododd bod hwnnw'n gyfnod argyfyngus ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru a phwysodd am i'r holl bleidiau gwleidyddol ymrwymo i gynnal gwerthoedd newyddiaduraeth o safon sy'n caniatáu i ni ddathlu bywyd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a dal y rhai pwerus i gyfrif. Ni all unrhyw genedl nac unrhyw ddemocratiaeth weithiol weithredu heb wasg gref, amrywiol, ymchwilgar a holgar. Mae Cymru lle nas cyhoeddir buddugoliaeth mewn chwaraeon, coroni mewn eisteddfod, neu ymgyrchu gan gymunedau, yn Gymru wannach, ac mae'r argyfwng Covid-19 parhaus wedi amlygu ymhellach y rhan hollbwysig sydd gan y cyfryngau yng Nghymru wrth gyflwyno'r wybodaeth iechyd y cyhoedd hanfodol, sy'n achub bywydau, sydd wedi amrywio o genedl i genedl.

Er bod gan Gymru draddodiad newyddiadurol hir a balch, mae'r argyfwng parhaus wedi ergydio diwydiant sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol yn barod, ac mae'r epidemig wedi dwysáu'r broblem sydd wedi bod yn gwaethygu ers 20 mlynedd. Roedd teitlau papurau newydd Cymreig wedi cael eu niweidio gan doriadau i niferoedd newyddiadurwyr a'r diffyg buddsoddiad mewn newyddiaduraeth cyn i'r feirws ymddangos hyd yn oed, a gwelsom fwy o swyddi'n diflannu yn Reach a Newsquest dros yr haf. Mae swyddi'n cael eu torri yn ITV Wales a BBC Wales hefyd, ac wrth i gynlluniau cymorth Covid-19 Llywodraeth y DU ddirwyn i ben, os na fydd gweithredu a chymorth brys, ofnwn y gellid gweld rhagor o swyddi'n diflannu a chyhoeddiadau'n cau. Mae'r cyhoeddiadau hyperleol ac ar-lein, sydd wedi chwarae rhan ganolog wrth ledaenu cynnwys newyddiadurol o safon ymhlith amrywiol

gynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol, mewn trafferthion ariannol hefyd heb fynediad at gyllid hysbysiadau statudol cyfartal neu gyllid hysbysebu gan y Llywodraeth.

Mae'r NUJ wedi croesawu gwaith y Pwyllgor a'r cyfle i roi tystiolaeth ar lafar ac mewn ysgrifen ar yr ymgynghoriadau a'i argymhellion, yn cynnwys *Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru* yn 2017 ac *Y Penawdau: Ymchwiliad i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru* yn 2018. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cefnogi Wythnos Mae Newyddion Lleol o Bwys yr NUJ.

Yn fwyaf diweddar, yn 2020, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad a chlywodd dystiolaeth ar *Effaith yr Epidemig COVID-19 ar Newyddiaduraeth a Chyfryngau Lleol.* Darparodd yr NUJ dystiolaeth ar yr effaith y byddai dileu mwy o swyddi yn Reach yn ei gael, ar ffocws parhaus Reach ar gynnwys digidol fel model busnes, a'r effaith fyddai hyn yn ei gael ar ddarparu cynnwys Cymreig. Roedd y sesiwn a'r llythyr dilynol gan Gadeirydd Gweithredol y Pwyllgor i Jim Mullen, Prif Swyddog Gweithredol Reach, yn dyst i bryder parhaus y Pwyllgor bod ymagwedd Reach wedi cael effaith andwyol ar yr ymdriniaeth o fywyd Cymreig. Mae'r NUJ yn credu y bu ymyrraeth y Pwyllgor gyda Reach yn gyfrannol yn helpu i sicrhau dyfodol y *Western Mail*, ynghyd â rhoi pwysau ar Reach i adfer swydd Golygydd y *Daily Post*.

Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r NUJ yn diolch i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth ac yn pwysleisio eto – ar adeg yr argyfwng cenedlaethol hwn sydd wedi gwaethygu’r problemau sylfaenol sy'n wynebu'r cyfryngau yng Nghymru, mor hanfodol yw i’r Pwyllgor barhau i chwarae rhan ganolog wrth fynd i'r afael â'r problemau hyn a darparu cymorth. Mewn Cymru gref, mae angen cyfryngau cryf, ac mae angen amrywiaeth o allfeydd ar bobl Cymru sy'n ymgysylltu â'u bywydau, eu cymdogaethau a'u hanghenion. Ni allwn ganiatáu gostyngiad pellach yn y ddarpariaeth o gynnwys newyddiadurol o safon yng Nghymru, na'r peryglon dilynol o ddiffyg democrataidd cynyddol.